CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 11eg o ORFFENNAF 2022** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Non W. Parry - Cadeirydd

Cyng. John Lee – Dirprwy Faer
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Terry Jones
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Richard Parry
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Eleri Lloyd Burns (TEAMS)

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees
PCSO Alison Williams

Clerc : Mr. H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms.Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

22/049 Ymddiheuriadau : Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Henry D. Jones, Cyng. Gwenan Ll. Evans, Cyng. Christine Roberts
Cynghorydd Sir : Cyng. Geraint Bebb, Cyng. Non Dafydd.

22/050 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

22/051 Heddlu Gogledd Cymru : PCSO Alison Williams yn bresennol yn y Cyfarfod 11.07.2022 i drafod materion yn ymwneud a thref Llangefni, fel a ganlyn :

- Cyng. Dylan Rees yn tynnu sylw at ddamwain rhwng dau feiciwr ar y llwybr cyhoeddus ger Siop Ellis ac yn awgrymu gofyn i Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn, osod arwyddion rhybudd.
- Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod oedolion a phlant yn reidio beics ar balmentydd y stryd ac yn anwybyddu'r arwyddion;
- Cyng. Margaret Thomas yn rhoi gwybod fod rhai o Botiau Blodau ar y stryd fawr wedi cael eu fandaleiddio a bod hyn wedi cael ei gofrestru gyda'r Heddlu;
- **PCSO Alison Williams yn adrodd ar y canlynol** :
- Holi am ddiweddariad ynglŷn â chynyddu /ail-leoli Camerâu CCTV o gwmpas y dref - Cadeirydd yn adrodd fod dim diweddariad ar hyn o bryd.
- Pryderu fod gordyfiant y coed ar y palmentydd yn rhwystro gweledigaeth y camerâu, CCTV ac angen eu tocio;

PARHAD 22/051

- Delio mewn cyffuriau o gwmpas safle Siop Iceland yn parhau yn rheolaidd;
- Coed yn yr ardal yma angen eu tocio hefyd fel bod yr ardal yma yn fwy agored;
- Oherwydd pwysa gwaith y PCSO's, nid ydyw yn bosib i gynrychiolydd o'r Heddlu fod yn bresennol yn fisol yn y Cyfarfodydd Llawn, bydd bob ymdrech yn cael eu wneud i fynychu oeliaf bob tri mis;
- Sgt. Mike Andrews newydd ei apwyntio i'r swydd;
- Clerc yn adrodd fod Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn, wedi trefnu gwaith clirio a thacluso i'r llwybr tu cefn i Siop Iceland, lle bu rac parcio beics yn cael ei osod;
- Cyng. John Lee yn tynnu sylw fod gordyfiant y ddwy ochor i Allt Forwylld (Allt Station), sydd angen sylw.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn i gyflwyno cais i gael tocio'r coed sydd yn gorchuddio'r Camerâu CCTV, ynghyd a'r gordyfiant ar Allt Forwylld ac o gwmpas Siop Iceland.

Cadeirydd yn diolch i PSCO Alison Williams am ei mewnbwn.

22/052 Seddi Gwag – Ward Tudur
Arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd ; Mr. Richard Parry, Mr. J. Huw Owen a Mrs Hefina Roberts :

1 Cadeirydd yn croesawu Cyng. Richard Parry a Cyng. J. Huw Owen, yn dilyn eu cyfethol ar Ward Tudur. Cynghorwyr yn arwyddo'r Ddogfen uchod.

2 Cadeirydd yn adrodd, oherwydd ymrwymiad blaenorol, ni fydd Mrs Hefina Roberts yn bresennol heno. Bydd Mrs Roberts yn arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd yn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 12fed o Fedi 2022. **Derbyn.**

22/053 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 13.06.2022

Cadeirydd yn adrodd fod cywirdeb i'r Cofnodion, fel a ganlyn : Tudalen 6, Eitem 22/035.1 yn darllen yn anghywir. Dyddiad cyfarfod nesâf yw Nos Lun 11eg o Orffennaf 2022 ac nid Nos Lun 12fed o Fedi 2022.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion, a'i arwyddo gan y Cadeirydd.

22/054 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 13.06.2022

Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu trwy'r Swyddfa o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y Cyfarfod. Clerc yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi holi am ddiweddariad ynglŷn â thri mater :

1 Safle'r Orsedd : Torri Gwair a'r Gordyfiant ;
2 Felin y Graig - (Dim gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn)
3 Teithiau Llesol - Cyngor Sir Ynys Môn

Clerc yn ymateb bydd y materion uchod yn cael eu trafod fel Eitemau ar y Rhaglen heno.

22/055 Cynllunio
I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 14.06.2022

Cadeirydd yn adrodd fod sylwadau'r Pwyllgor Cynllunio ar Ymgynghoriadau Cynllunio Mai/Mehefin 2022, wedi eu hanfon ymlaen at Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyng. J. Egryn Lewis yn holi am gyfansoddiad i'r Pwyllgor yma a dylid bob Aelod fod yn ymwybodol o'r ceisiadau yn yr ardaloedd gwahanol a hefyd cael mewnbwn ar y Ceisiadau sylweddol.

PARHAD 22/055

Cadeirydd yn adrodd fod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi trafod a phenderfynu cadw i'r drefn bresennol o brosesu'r Ceisiadau Cynllunio. Cyng. Margaret Thomas yn ychwanegu fod yr Ymgynghoriadau Cynllunio misol ar gael yn y Swyddfa i rhywun eu adolygu.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

22/056 Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae – Cyfarfod Arbennig 04.07.2022
I Dderbyn Argymhellion yr Is-bwyllgor uchod :

Cyng. Victor Hughes, Cadeirydd yr Is-bwyllgor uchod, yn cyflwyno crynodeb o'r Cyfarfod Arbennig ac yn arwain yr Aelodau trwy'r argymhellion, fel a ganlyn :

- Gofyn i Gwmni CDS am bris newydd ar gyfer y gwaith profion tyllau tirio;
- Derbyn Adroddiad Ecolegol ac Amgylchedd;
- Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn - Rhan o dir Penlan wedi ei chlustnodi ar gyfer Paneli Solar i'r dyfodol.

Cyng. Victor Hughes yn awgrymu rhoi awdurdod i'r Asiant wneud ymholiadau ar gyfer lleoli a gosod Paneli Solar yn unol â'r Cynllun Datblygu. Cyng. Richard Parry yn holi os bydd lleoliad y Fynwent Newydd a'r Paneli Solar yn cyd-redeg gyda'i gilydd. Cyng. Hughes yn ymateb bydd dim trafferth o gwbl i'r ddau ddatblygiad weithio gyda'i gilydd. Aelodau yn croesawu'r cyfle i ystyried gosod Paneli Solar a fydd yn elwa i'r dyfodol wrth gynhyrchu incwm i'r Cyngor Tref ac i drigolion Llangefni.
Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i symud ymlaen gyda'r tri phwynt uchod a rhannu gwybodaeth gyda'r Aelodau fel mae materion yn symud ymlaen.
Cyng. Victor Hughes yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD YMHELLACH i** dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

22/057 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer

Cadeirydd yn adrodd, oherwydd ymrwymiad blaenorol, salwch COVID-19, nid oedd wedi gallu mynychu'r tri Achlysur canlynol :

1 **"The Motivational Preparation College for Training" (MPCT) Bangor - 23.06.2022**
2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Seremoni Agoriadol Taith Faton y Frenhines - 29.06.2022**
3 **Llu Awyr Brenhinol Y Fali – "Annual Reception" – 08.07.2022**
4 Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau : **Gwasanaeth Sul y Maer eleni 25ain o Fedi 2022 am 4.30 y.h. yn Eglwys St. Cyngar, Llangefni.**

22/058 Materion yn codi gan Aelodau : Dim

22/059 Adroddiad y Clerc
Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Tir Penlan :** Wedi ei drafod o dan Eitem 22/056 o'r Rhaglen. Clerc yn adrodd fod apwyntiad dros dro (provisional) wedi ei wneud gyda Chwmni CDS i ddechrau ar y profion tyllau turio, Dydd Iau 14eg o Orffennaf 2022, ac yn aros i hyn gael ei awdurdodi gan y Cyfarfod Llawn heno. **PENDERFYNWYD** caniatâd i'r Clerc symud ymlaen gyda Chwmni CDS ar gyfer y gwaith uchod.

2 **Diweddariad gan y Clerc ar y materion isod :**

(a) Trosglwyddo Safle'r Orsedd : Cytundeb Terfynol wedi ei arwyddo a'i gwblhau. Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn cyngor gan Gyfreithiwr y Cyngor Tref, yn dilyn cais un o'r Aelodau i ofyn i Fwrdd Iechyd BC roi'r tir yn barhaol, fel Ased i'r Cyngor yma ac nid am 10 mlynedd, fel y Cytundeb presennol. Y Cyfreithiwr yn cynghori dilyn y cynllun gwreiddiol ar hyn o bryd ac awgrymu gwneud ymholiadau pellach i drosglwyddo'r tir yn barhaol ymhen rhyw wyth mlynedd. Dim trafodaeth bellach ar y mater yma.

PARHAD 22/059

Cyng. J. Egryn Lewis yn pryderu fod y gwair, cloddiau a'r drain angen eu torri/tacluso ar y safle a dylid y Cyngor Tref edrych ar gael rhestr o Gontractwyr wrth law i roi prisiau ar gyfer Gwaith fel hyn. Clerc yn cadarnhau bydd yr ymylon yn cael eu torri yn ystod yr wythnos yma a threfniadau yn cael eu gwneud i dorri'r cae a thacluso'r ysbwriel maes o law. **Derbyn**

(b) Trosglwyddo Cae Criced : Cyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr wedi ymgynghori gyda'r Bargyfreithiwr a bod anfoneb o £1,000 i'w dalu am ei gyngor. Cyfreithiwr y Cyngor Tref am ddilyn hyn i fynnu a gofyn am yr Adroddiad ac wedyn bydd y taliad yn cael ei wneud. **Derbyn**

3 **Cyngor Sir Ynys Môn - Teithio Llesol :** Clerc wedi cyfathrebu gyda Swyddogion y Cyngor Sir ynglŷn â'r gwelliannau a'r gwaith hyd yma, fel a ganlyn :

- **Ardal Siop Iceland :** Clirio gordyfiant ar y llwybr tu cefn i'r Siop i wneud lle i osod rac beiciau, ynghyd a thacluso o gwmpas y stepiau ;
- **CCTV :** Edrych am roi cyfraniad tuag at Gamerâu CCTV ychwanegol i'r dref ;
- **Lon Las :** Dwy Fainc wedi eu harchebu - Rhestr disgwyl o dri mis cyn derbyn y Meinciau
- **Maes Hyfryd, Lon Newydd :** Gwaith lledu'r llwybr troed wedi cychwyn ;
- **Safle Maes yr Orsedd :** Gwelliannau i'r cloddiau a'r llwybr ar y Rhestr Gwaith.

4 **Canllawiau'r Cynghorydd Da – Mehefin 2022 :** Wedi ei anfon at yr Aelodau i'w ddarllen.

5 **Digwyddiad Nadolig 02.12.2022 :** Sefydlu Grŵp Gweithgor dechrau Mis Medi i gael syniadau at ei gilydd ar gyfer Adloniant yr Achlysur. Yn y cyfamser edrych ar faint o gyllideb sydd ar gael ar gyfer arddangosfa'r Goleuadau Nadolig eleni. Bydd hyn yn cael ei drafod yng Nghyfarfod Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ar 25ain o Orffennaf 2022. **Derbyn**

6 **Gwyliau Blynyddol Staff y Swyddfa :** Oriau agored y Swyddfa yn hyblyg yn ystod Mis Awst oherwydd gwyliau blynyddol. Bydd rhybudd o'r oriau agored yn cael ei arddangos yn ffenestr y Swyddfa.

7 **Y Llys, Llogi Ystafelloedd :** Swyddog o Fudiad yr Urdd yn chwilio am Adeilad ar gyfer llogi Ystafelloedd. Wedi ymweld â'r Llys ynghyd a Swyddfeydd eraill yn yr ardal - dim wedi clywed dim byd pellach hyd at rŵan.

8 **Maes Chwarae Rhosmeirch :** Cyng. Richard Parry yn diolch i'r Cyngor am y gwaith gwelliant o ledu'r palment yn yr ardal yma.

22/060 Adroddiadau Pwyllgorau Allanol

1 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Cyffredinol/Pwyllgor Ardal Ynys Môn 07.07.2022 -** Cyng. Margaret Thomas a Cyng. J. Egryn Lewis wedi eu hethol i gynrychioli'r Cyngor Tref. Cyng. Thomas yn adrodd mai'r Gwr Gwadd oedd John Morris o Heddlu Gogledd Cymru ar gynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol.

Gwasanaeth Tan : Cyng. Thomas yn cyfeirio at y ddamwain ddiweddar ger Ysgol y Graig lle bu pum car eu difrodi'n ddrwg mewn tan. Yn ystod yr argyfwng yma, roedd Gorsaf Dan Llangefni yn ddi-griw, a bu rhaid defnyddio peiriannau tan o fannau eraill ar Ynys Môn a pellach. Oherwydd y sefyllfa ddifrifol yma, tynnwyd hyn i sylw'r Prif Swyddog Tan Gynorthwyol, a phwyso arno fod angen recriwtio mwy o bobl i'r Gwasanaeth Tan yn Llangefni fel bod yr Orsaf ar agor yn barhaol ac nid rhan amser. Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Swyddog ynglŷn â'r uchod ac yn ddiolchgar am y sylwadau ac yn gefnogol o'r pwyntiau a godwyd. Cadeirydd yn diolch i Cyng. Thomas am ddod a'r mater pwysig yma i sylw'r Aelodau.

2 **Ysgol Corn Hir - Enwebu Llywodraethwyr :** Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan ei fod yn dod o fewn y criteria - Dim trafodaeth bellach.

3 **Menter Mon - Cynllun Meinciau :** Aelodau yn gefnogol o gynnwys e-bost dyddiedig 24.06.2022, a'r cynllun gweithio gydag Artist lleol i baentio mainc yn ardal Nant y Pandy. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** cynnig y Fainc ar y llecyn gwyrdd ar ben Allt Forwylld (Station) ar gyfer y prosiect yma.

22/061 Cyllid

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2022**
Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau'r codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, o flaen y Cyfarfod.
Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn gofyn am eglurhad am y Taliad canlynol : 14.06.2022 – Dwr Cymru £59.51 – Safle'r Pafiliwn/Lawnt Bowlio – Anfoneb yn y Swyddfa.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Margaret Thomas yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2022.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw oherwydd bod Cyfarfod 27ain o Fehefin, Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol wedi ei ohirio, dylid dyddiad arall wedi ei drefnu yn syth. Clerc yn adrodd bod dyddiad wedi ei benodi i ail-gynnal y Cyfarfod Nos Lun 25ain o Orffennaf 2022.

22/062 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Mon :
Cynghorydd Sir Dylan W. Rees yn cyflwyno diweddariad ar y canlynol :

1 Ymddiheuriad gan Gynghorydd Sir Geraint Bedd i'r Cyfarfod Llawn heno;
2 Datblygiad Ysgol Corn Hir yn symud ymlaen yn dda – Camau nesaf mewn lle;
3 Adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Mon : Bwriad y Cynghorau ydyw mynd ffordd eu hunain a datblygu cynlluniau unigol. Bydd hyn gerbron y Cynghorau yn ystod mis Gorffennaf.
4 Prosiect Morlais : Cwmni o Sbaen wedi sicrhau cytundeb yn un o barthau Morlais fel hwb i raglen Ynys Ynni Mon;
5 Wedi mynychu Noson Mabolgampau Rhosmeirch - Cyng. Sir Non Dafydd wedi cymered rhan yn y Rasys.

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Rees am ei adroddiad.

22/063 Gohebiaeth a Materion Newydd :

1 **Cyfraniadau :** Llythyrau o ddiolch wedi eu derbyn gan Elusen Ambiwlans Awyr Cymru a Phwyllgor Gŵyl Cefni;
2 **Llywodraeth Cymru/Un Llais Cymru : Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref 16.06.2022 :** Wedi ei rannu gyda'r Aelodau i'w ddarllen;
3 **Cyngor Sir Ynys Môn - Pwyllgor Safonau - Cynrychiolwyr y Cynghorau Thref a Chymuned :** Ffurflen enwebu i'w chwblhau erbyn 30ain Fedi 2022. I'w ystyried yng Nghyfarfod Llawn 12fed o Fedi 2022. **Derbyn**

22/064 Gohebiaeth : Er gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon i'r Aelodau trwy e-bost yn ystod Mis Mehefin 2022 :

1	**Un Llais Cymru**	**-**	Derbyn
2	**Materion Eraill**	**-**	Derbyn

22/065 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer :
Gwaith Gweithredu yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol 09.05.2022. Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy'r Rhestr, fel a ganlyn :

1 **Y Cyngor : Rhestr Aelodau ar Is-bwyllgorau :** Dim newidiadau i'r Rhestr, heblaw cynnwys Cyng. Christine Roberts ar Bwyllgor Cynllunio o Fis Medi ymlaen;
2

Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol : Newidiadau i'r Rhestr yma : Llywodraethwyr Ysgol y Graig – Cyng. Gwenan Ll. Evans; Ysgol Corn Hir – Tymor Cyng. J. Huw Owen wedi dod i ben.

PARHAD 22/065

3

Rhestr Dyddiadau Cyfarfodydd : Wedi ei rannu gyda'r Aelodau. Clerc yn esbonio Amserlen yr Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn unol â pharatoi'r Gyllideb/Precept i dderbyn yr argymhellion yng Nghyfarfod Llawn 5ed o Ragfyr 2022/16eg o Ionawr 2023.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod dim Cyfarfodydd yn ystod Mis Awst ac yn awyddus fod ymdrech yn cael ei wneud i rannu gwybodaeth dros gyfnod yr Haf ac ymweld â'r safleoedd allanol y Cyngor Tref. Cadeirydd yn adrodd i'r Aelodau wneud ymweliad safle yn amser eu hunain yn ystod Mis Awst a dod a gwybodaeth yn ôl i'r Cyfarfod Llawn yn Mis Medi.

22/066 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

1 Cyfarfod Llawn Nos Lun 12fed o Fedi 2022.

CYNG. NON W. PARRY
CADEIRYDD

Arwyddwyd ……

Dyddiad ……..